| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **12 Mai 2016** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus/<br>Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Datblygu: Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Gweithdrefnau Rheoleiddio Maes Carafannau Drafft** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r Gweithdrefnau Rheoleiddio Maes Carafannau drafft.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Y rheswm dros lunio'r adroddiad hwn yw ceisio mewnbwn y Pwyllgor ar y Gweithdrefnau drafft.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Aelodau yn cytuno i egwyddorion y Gweithdrefnau Rheoleiddio fel y nodwyd yn y ddogfen atodedig (Atodiad 1) ac yn cytuno i Swyddogion y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd gwblhau ac yna dechrau gweithredu'r Gweithdrefnau.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Bydd Aelodau'n ymwybodol o'r prosiect corfforaethol cyfredol oedd yn ceisio archwilio graddfa bosibl ac effaith y defnydd o garafananu gwyliau heb awdurdod ar gyfer defnydd preswyl parhaol yn y Sir.

Mae adroddiadau blaenorol wedi eu cyflwyno i'r pwyllgor archwilio yn amlinellu'r cofnodion oedd gan y Cyngor ar y mater, y dewisiadau rheoleiddio posibl sy'n agored i ni a'r ôl-effeithiau i'r Cyngor os byddwn yn dewis anwybyddu'r mater, neu ymyrryd.

Gan ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd i gyfarfod mis Tachwedd o'r Pwyllgor Archwilio cytunwyd y dylai'r Cyngor barhau i geisio delio â'r defnydd preswyl heb awdurdod o garafannau gwyliau. Er y derbyniwyd y gall fod yn anodd delio â defnydd hanesyddol, roedd Aelodau yn dymuno delio ag achosion newydd posibl. Byddai hyn o fudd i'r Sir mewn nifer o ffyrdd:

- Darparu tegwch ar gyfer busnesau parc gwyliau yn y Sir.
- Lleihau pwysau ar wasanaethau'r Cyngor.
- Sicrhau bod parciau gwyliau yn gweithredu yn unol â rheoliadau rheoleiddio.
- Codi proffil twristiaeth yn Sir Ddinbych.

Wrth gyflwyno’r adroddiad blaenorol i’r Pwyllgor Craffu, eglurodd y swyddogion, er mwyn mynd i’r afael â defnydd preswyl heb awdurdod o garafannau gwyliau, roedd y prosiect angen cynnwys nifer o elfennau. Mae’r rhain wedi eu rhestru fel a ganlyn:

- Creu cronfa ddata mapio/cyfeiriad corfforaethol ar gyfer carafannau yn y Sir
- Cofnodi ceisiadau ar gyfer mynediad i wasanaethau yn well ac yn fwy cydlynol gan holl swyddogion perthnasol
- Swyddogion yn herio ceisiadau am fynediad i wasanaeth gan unigolion sy’n rhoi carafán fel eu cyfeiriad.
- Rhoi gwybod i’r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd am geisiadau am fynediad i wasanaeth gan unigolion sy’n rhoi carafán fel eu cyfeiriad
- **Creu Gweithdrefnau Rheoleiddio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer Meysydd Carafannau**
- Mwy o gydweithio gyda’r Brititish Holiday and Home Parc Association (BHHPA) er mwyn hyrwyddo arfer gorau
- Cymorth i fusnesau a chyngor i safleoedd carafannau gwyliau sy’n dymuno rheoleiddio defnydd neu sy’n dymuno ehangu

Byddai gweithredu’r uchod yn lleihau’r risg y gall pobl barhau i brynu a defnyddio carafannau gwyliau yn y Sir fel eu prif breswylfa o fewn y Cyngor heb i’r Cyngor wybod amdano.

Prif elfen y prosiect yw ymgysylltu â’r BHHPA. Roedd y Cyngor yn gweld hyn fel cyfle i sefydlu arfer gorau yn y diwydiant a rhannu arfer gorau gyda phob maes carafán sy’n gweithredu yn y Sir. Fel rhan o’r ymarfer hwn, trefnodd y Swyddogion a BHHPA Gynhadledd ar y cyd lle darparwyd gwybodaeth safonau masnach, cynllunio, trwyddedu a chymorth busnes i berchnogion maes carafannau. O’r Gynhadledd gyntaf hon cytunwyd y byddai Fforwm yn cael ei sefydlu i gynnwys Swyddogion CSDd perthnasol, Aelodau BHHPA, Heddlu Gogledd Cymru a’r Gwasanaeth Tân. Mae’r ymgysylltu hwn yn cael ei ystyried yn hanfodol i sicrhau bod busnesau carafannau da yn y sir yn cael eu cefnogi a bod y rhai sy’n parhau i herio rheoliadau yn cael eu taclo.

O ganlyniad, mae Gweithdrefnau Rheoleiddio wedi cael eu drafftio sy’n cynnwys yr agwedd gorfforaethol ar gyfer rheoleiddio safleoedd carafannau yn well yn y Sir. Mae’r gweithdrefnau yn cynnig agwedd ragweithiol i archwilio meysydd carafannau gwyliau yn y Sir. Yn ogystal maent yn darparu arweiniad ar sut i fynd i’r afael ag achosion newydd sy’n cael eu dwyn i sylw’r Cyngor. Mae’r Gweithdrefnau drafft ynghlwm i’r adroddiad hwn.

Bydd y Gweithdrefnau angen i ddogfennau atodol gael eu cwblhau fel rhybuddion gorfodi safonol a llythyrau rhybudd. Fodd bynnag, maent yn sefydlu’r egwyddorion ynglŷn â sut y gall y Cyngor ddechrau mynd i’r afael â thorri rheolau ar feysydd carafannau gwyliau mewn modd systematig a chymesur.

Mae’n amlwg bod y gwaith a wnaed hyd yma wedi dechrau newid y ffordd mae rhai meysydd carafannau gwyliau yn hyrwyddo a gwerthu carafannau i gwsmeriaid. Mae perchnogion safle yn awyddus i weithio gyda’r Cyngor i hybu arfer gorau a herio sut mae pobl yn defnyddio carafannau gwyliau ar eu safleoedd eu hunain.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae mynd i'r afael â sut mae meysydd carafannau yn gweithredu o fewn y Sir yn cyfrannu at Strategaeth Uchelgais Economaidd y Sir a'r prosiect Gwell Busnes i Bawb. Mae'n gwneud hynny drwy sicrhau bod busnesau yn cael eu cefnogi a'u rheoleiddio gan sicrhau eu bod yn gweithredu mewn amgylchedd masnachu teg. Mae rheoleiddio meysydd carafannau gwyliau yn well hefyd yn cyfrannu at sicrhau fod gan bobl fynediad i lety preswyl o ansawdd da a bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu cefnogi.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol ar unrhyw Wasanaeth. Trwy leihau mynediad i Wasanaethau'r Cyngor dylid gwneud arbedion ariannol.

Gellir gweithredu'r Gweithdrefnau Rheoleiddio hyn gydag adnoddau staffio presennol yn y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Amherthnasol ar hyn o bryd.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorwyd â'r BHHPA ar y gweithdrefnau drafft ac maent yn cefnogi'r egwyddorion ynddynt.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amh.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae yna risgiau ariannol sylweddol ac i enw da'r Cyngor wrth beidio mynd i'r afael â thorri rheolau meysydd carafannau gwyliau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r Gweithdrefnau Rheoleiddio a amlinellwyd yn y ddogfen ddrafft i gyd wedi eu cynnwys mewn safonau masnach, deddfwriaeth cynllunio a thrwyddedu sefydledig.
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015
Deddf Rheoli Carafannau 1960
Mae Erthygl 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

**Swyddog Cyswllt:**
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Ffôn: 01824 706727